

Deddf Rhyddid Gwybodaeth: Y Drefn Gwyno

Mae'r drefn hon yn neilltuol ar gyfer ymdrin â chwynion mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y Cyngor.

Pan fyddwch yn anfodlon â'r modd y mae'ch cais am wybodaeth wedi'i drin ac na lwyddoch i gael boddhad drwy drafod y mater â'r Swyddog sy'n delio â'r mater, anogir chi i ddefnyddio'r drefn hon.

1. Dylech gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig a'i chyfeirio at Swyddog Cwynion Deddf Gwybodaeth, Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB neu drwy e-bost i foi@flintshire.gov.uk gan roi manylion llawn yr achos. Dylid cyflwyno'r gŵyn cyn pen deufis ar ôl derbyn yr ymateb gwreiddiol.

2. Anfonir cydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch a bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio at Swyddog Cwynion Deddf Gwybodaeth Cyfarwyddiaethol er mwyn iddi/iddo ymchwilio ac adolygu'r ymateb gwreiddiol i'ch cais a bydd yn ymateb yn ysgrifenedig cyn pen 20 diwrnod gwaith. Uwch Swyddog, heb gysylltiad â phrosesu eich cais gwreiddiol, sef achos eich cwyn, fydd y person hwn.

3. Pan fydd y gŵyn yn un gymhleth (lle mae eithriad cymwys yn berthnasol, er enghraifft) efallai na fydd yn bosibl delio â hi o fewn y terfynau amser uchod. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd adroddiad cynnydd yn cael ei anfon o fewn y terfynau amser uchod.

4. Petaech yn dal yn anfodlon wedi'r drefn uchod, efallai byddwch am hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Adran 50 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth nad yw'r Cyngor wedi delio â'ch cais am wybodaeth yn briodol. Mae swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.